CYFARFOD, DOGFENNU

# Cofnodion Bwrdd Awdurdod Cyllid Cymru: 27 Hydref 2021

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2021.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 3 Hydref 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 23 Hydref 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-27-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Yn bresennol

## Agor y cyfarfod

## Adroddiadau, cymeradwyaethau a phenderfyniadau

## Cau’r cyfarfod



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-27-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Yn bresennol

## Aelodau

- Kathryn Bishop, Cadeirydd
- Dyfed Edwards, Is-gadeirydd
- Mary Champion, Aelod Anweithredol
- Rheon Tomos, Aelod Anweithredol
- Dyfed Alsop, Prif Weithredwr
- Sam Cairns, Prif Swyddog Gweithrediadau
- Melissa Quignon-Finch, Prif Swyddog Pobl a Chyfathrebu

## Ymgynghorwyr

- Rob Jones, Prif Swyddog Cyllid
- Neil Butt, Pennaeth Staff Dros dro
- Amy Bowden, Pennaeth Cyfreithiol
- Gareth Watson, Pennaeth Cyfathrebu Dros Dro
- Rob Hay, Dirprwy Bennaeth Strategaeth Treth - Trysorlys Cymru

# Agor y cyfarfod

## 1. Croeso a chyflwyniadau, gwrthdrawiad buddiannau ac ymddiheuriadau, cofnodion y cyfarfod diwethaf, materion yn codi

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. Cafwyd ymddiheuriadau gan Andrew Jeffreys, byddai Rob Hay yn dirprwyo

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-27-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ac yn cyflwyno’r adroddiad gan Drysorlys Cymru (TC).

3. Cytunwyd ar log gwrthdaro buddiannau'r bwrdd.
4. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf. Cytunwyd ar y cofnodion wedi'u golygu at ddibenion cyhoeddi allanol.
5. Mae pedwar cam gweithredu wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:
    - **A21-01-01:** Adolygiad amserlen o strategaethau ar lefel Bwrdd - Nodwyd yn y rhagolwg y bydd adolygiadau strategaeth yn digwydd yn ôl yr angen drwy gydol y flwyddyn
    - **A21-02-01:** Trefnu eitem ar fodel gweithredu digidol ar gyfer cyfarfod Bwrdd neu sesiwn drafod yn y dyfodol - Nodwyd hyn ar yr rhagolwg
    - **A21-03-01:** Trefnu sesiynau briffio ar wahân i drafod mesurau perfformiad risg treth a'r adolygiad o ddyled - I'w drafod yng nghyfarfod mis Rhagfyr, dan arweiniad COO
    - **A21-04-01:** Bydd y Cadeirydd a'r Pennaeth Staff yn cynnal adolygiad o ragolwg y Bwrdd - Mae'r rhagolwg wedi'i ddiweddaru.
6. Roedd yr Aelod Staff Etholedig (SEM) newydd wedi'i benodi, a bydd yn ymuno â'r cyfarfod nesaf. Diolchodd yr Aelodau i bawb a oedd yn rhan o'r broses o benodi'r SEM, ac i'r rhai a fynegodd eu diddordeb yn y rôl ac a safodd ar gyfer etholiad.
7. Nodwyd yn y Bwrdd cyn cyfarfod y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yn cynnal sesiynau chwarterol ar becyn cymorth y Ganolfan Seibrddiogelwch Genedlaethol (NCSC), er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ar faterion seiber. Byddai'r broses yn cael ei hadolygu ar ôl dwy sesiwn.

# Adroddiadau, cymeradwyaethau a phenderfyniadau

## 2. Adroddiad y Cadeirydd

1. Roedd y gwaith o recriwtio swyddogion Anweithredol newydd wedi cyrraedd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-27-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

y cam olaf, gan gynnwys cael cymeradwyaeth ffurfiol gan y Gweinidog.
2. Cafodd y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd gyfarfod rhagarweiniol gyda'r Ysgrifennydd Parhaol newydd, sydd i fod i ddechrau yn y rôl ym mis Tachwedd.

## 3. Adroddiad y Prif Weithredwr

1. Roedd dysgu a datblygu ar gyfer rheolwyr wedi'u caffael ac roedd gwaith yn cael ei wneud ar yr opsiynau terfynol; cynhaliwyd sesiynau grŵp bach o’r blaen gyda staff i gael cipolwg ar anghenion a steiliau unigol.
2. Roedd canmoliaeth wedi’i derbyn ar wasanaeth Cymraeg ACC. Roedd yn braf gweld llawer o ddathliadau ar draws y timau, a diolchodd y Bwrdd i bawb am eu gwaith a'u hymdrech.
3. Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar lety.
4. Ar y gwaith ar warediadau anawdurdodedig: gwnaed cynnydd da yn ystod y 6 mis diwethaf. I ddechrau, treuliwyd amser yn canolbwyntio ar ddatblygu'r polisi gweithredu a dethol achosion, heb roi hysbysiadau. Roedd timau ACC a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cydweithio i nodi cyfran fach o achosion sy'n addas i'w profi - byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli Achosion (CMC) fis nesaf i'w cymeradwyo. Mae'n debyg na fydd yr achos cyntaf yn cael ei ddatrys tan y flwyddyn ariannol nesaf.
5. Darparwyd diweddariad ar fetrigau perfformiad.
6. Roedd dau ddangosfwrdd newydd wedi’u datblygu er mwyn galluogi cydweithwyr gweithredol a chyllid i ddeall proffil dyled treth yn llawnach. Byddai hyn yn llywio archwiliad manwl yng nghyfarfodydd y Grŵp Arweinyddiaeth Darparu Gwasanaethau (SDLG) yn y dyfodol, gydag unrhyw newid i brosesau sy'n deillio o hynny i'w drosglwyddo mewn adroddiadau i'r Bwrdd yn y dyfodol.
7. O ran risg, roedd arwyddion petrus bod gweithgaredd addysg wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer yr achosion risg.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-27-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 4. Adroddiad Cyllid

1. Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid ddiweddariad.
2. Ar hyn o bryd roedd yr adran gyllid yn edrych yn fanwl ar agenda'r llywodraeth, sy'n bwysig iawn ar gyfer yr adolygiad gwariant. Yn y flwyddyn newydd, byddai'r rhifau'n cael eu cwblhau ar gyfer Cynllun Corfforaethol tair blynedd ACC.
3. Wrth drafod tanwariant y gyllideb, nodwyd ffactorau allweddol y tu allan i reolaeth reoli (er enghraifft, staff yn derbyn rolau y tu allan i'r sefydliad). Trafodwyd penderfyniadau yn ymwneud ag adnoddau allweddol a wnaed am resymau effeithiolrwydd gweithredol (er enghraifft, secondiadau i LIC).
4. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod nifer o lwybrau'n cael eu harchwilio i sicrhau arbenigedd caffael, ond roedd galw mawr ar draws y sector cyhoeddus. Roedd hyfforddiant a mentora dros y 6 mis diwethaf wedi helpu i feithrin gwybodaeth mewn cyllid ac roedd hyfforddiant allanol pellach wedi'i gynllunio.
5. Nododd y Prif Swyddog Cyllid nad oedd disgwyl i'r tanwariant effeithio ar gyllideb y flwyddyn nesaf.

## 5. Adroddiadau gan bwyllgorau

1. Nid oedd unrhyw beth arwyddocaol i'w adrodd i'r Bwrdd gan ei bwyllgorau.

## 6. Adroddiad gan Drysorlys Cymru

1. Roddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch diweddar. Byddai Cynhadledd Dreth Llywodraeth Cymru yn cael ei chynnal ar 3 Tachwedd, a byddai ACC yn cynnal sesiwn. Mae'r dyddiad yn cyd-fynd â chyhoeddi fframwaith polisi trethi diwygiedig LIC, a'r cynllun gwaith polisi treth pum

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-27-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

mlynedd.
2. **Wedi'i olygu**.
3. **Wedi'i olygu**.
4. **Wedi'i olygu**.
5. **Wedi'i olygu**. Rhoddwyd y cytundeb rhyngadrannol wedi'i ddiweddaru i'r Gweinidog.

## 7. Addewid Dim Hiliaeth Cymru

1. Roedd ACC bellach mewn sefyllfa i lofnodi'r addewid mewn ffordd ystyrlon; yn y blynyddoedd blaenorol, nid oedd cydraddoldeb wedi'i ymgorffori'n sylweddol ar draws y sefydliad, a dyna'r rheswm dros yr oedi cyn llofnodi'r addewid.
2. Fodd bynnag, nodwyd mai dim ond y dechrau oedd llofnodi'r addewid hwn. Roedd yn ddatganiad bwriadol, gyda'r sicrwydd a ddarparwyd gan y sefydliad bod gwaith yn cael ei wneud ar y themâu hyn. Byddai angen trafodaeth bellach ar beth arall y gellid ei wneud ar lefel y Bwrdd, er mwyn mynd ati i sefyll yn erbyn rhagfarn, ac fel sefydliad, i nodi'r hyn y gellid ei wneud er mwyn gwneud newid cadarnhaol.

**D21-05-01:** Roedd y Bwrdd yn barod i wneud ymrwymiad i sefyll yn erbyn rhagfarn, ac ymrwymiad i agwedd dim goddefgarwch tuag at hiliaeth.

**D21-05-02:** Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn llofnodi'r ymrwymiad ar ran y Bwrdd.

## 8. Gwaith y Dyfodol ACC

1. Roedd nifer o drafodaethau'n digwydd ochr yn ochr ynglŷn â dyfodol ACC.
2. Roedd gwaith ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru ar drethi posibl yn y dyfodol, neu newidiadau i'r trethi presennol, ac ystyriaethau ynghylch sut y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-27-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gallai ACC gyfrannu at rai elfennau, er mwyn helpu i egluro'r ffordd Gymreig o feddwl am ein hagenda dreth.

3. Byddai'r Cynllun Corfforaethol newydd yn nodi'r meddwl hwn ynglŷn â gwaith yn y dyfodol, ac roedd yn ddefnyddiol bod amserlenni’r adolygiad o wariant a chynllunio corfforaethol wedi’u cydamseru.

## Cynllun Corfforaethol

4. Cytunwyd rhwng y Gweinidog a'r Tîm Arwain (TA) y byddai'r amcanion strategol presennol yn parhau, er y byddai gweithgareddau sylfaenol yn newid. Roedd y Bwrdd yn cytuno. Byddai barn yn cael ei datblygu ymhellach ar sut y byddai amcanion Data a Dylunio’n cael eu llunio o fewn y cynllun.

5. Byddai TA yn cynnal adolygiad rhanddeiliaid.

## Adolygiad o Wariant

6. **Wedi'i olygu**.

7. Roedd yn bwysig bod yn glir ar gostau model gwaelodlin, ond hefyd costau sy'n gysylltiedig â chefnogi WG yn y Rhaglen Lywodraethu. Wrth weithio gydag amcangyfrifon, mae angen i ni fynegi ein rhagdybiaethau’n glir. Byddai gweithio ar y defnydd o ddata yn ein dull risg treth, strategaeth ddigidol glir a'r gallu i fod yn hyblyg wrth symud adnoddau, yn ein galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am y dyfodol, gyda'r adnoddau sydd ar gael.

## Rhaglen Lywodraethu

8. Sefydlwyd Grŵp Cydlynu Polisi Treth ar draws LIC/ACC ym mis Medi 2021, gyda'r prif bwrpas o geisio cysoni datblygiad polisi ar draws blaenoriaethau polisi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-27-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

treth LIC. Er mwyn cefnogi'r nodau hyn, roedd angen i'r grŵp gael dealltwriaeth gyffredin o sut mae treth yn gweithio.

9. **Wedi'i olygu**.

10. **Wedi'i olygu**.

## Llywodraethu

11. Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar y gwaith ar lywodraethu allanol. Roedd y Gweinidog yn fodlon â'r dull ymgyfreitha, ac mae ganddo ddiddordeb mewn ymchwilio i newidiadau o fewn y Ddedf Casglu a Rheoli Trethi a fyddai'n hwyluso’r gwaith i ACC allu cefnogi LIC (er enghraifft, newid posibl o ran swyddogaethau, pwerau rhannu gwybodaeth).

12. O ran llywodraethu fewnol, sefydlwyd y SDLG, gyda'r cyfarfod cyntaf yn digwydd y mis hwn. Roedd yn ddechrau ar nifer o newidiadau, gwella'r ffordd y mae pobl yn cael eu grymuso i gymryd mwy o gyfrifoldeb, a chael arweinyddiaeth o fewn y sefydliad. Byddai hefyd yn creu gallu i arweinwyr corfforaethol ddechrau cael cwmpas strategol ehangach, a rheoli risgiau ar y lefel gywir.

**D21-05-03:** Cytunodd y Bwrdd i gynllun ymgysylltu'r Cynllun Corfforaethol.

**D21-05-04:** Cytunwyd bod yr ail Gynllun Corfforaethol yn cynnal yr un pedwar prif amcan (Hawdd, Teg, Effeithlon, Medrus).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-27-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cau’r cyfarfod

## 9. Unrhyw fater arall

1. Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.

## 10. Rhagolwg

1. Byddai'r eitemau canlynol yn cael eu hychwanegu at y rhagolwg (o'r drafodaeth ragarweiniol a'r cyfarfod heddiw):
   - diweddariad ar Ddyled ym mis Rhagfyr
   - diweddariad ar Dreth Gwarediadau Anawdurdodedig (O bosibl ym mis Chwefror)
   - adroddiad blynyddol ar seibr-sicrwydd (i'w benderfynu)
   - ymateb sefydliadol i addewid Dim Hiliaeth Cymru, ynghyd â'r adroddiad Cydraddoldeb (O bosibl ym mis Ebrill)
2. Nodwyd pwysigrwydd hyblygrwydd trefnu eitemau yn y rhagolwg - roedd eitemau rheolaidd i'w hadolygu, fodd bynnag roedd yn bwysig caniatáu amser ar gyfer trafodaeth strategol wrth i gyd-destun y dyfodol ddatblygu.

## 11. Adolygiad o’r cyfarfod

1. Roedd yn bwysig bod cynnwys a chrynodeb y trafodaethau diweddar yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol a'r Aelod Staff Etholedig newydd, fel rhan o'r gwaith o’u sefydlu. Gwnaed awgrym, fel mesur perfformiad, o faint o bobl sy'n cyfrannu at drafodaethau (y tu allan i'r Bwrdd), drwy gydol y flwyddyn. Byddai ystyriaeth yn cael ei roi i ba ymarferion datblygu tîm y dylid eu cynnal, pan fydd yr aelodau newydd yn cael eu penodi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-27-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Gwybodaeth wedi'i golygu

Mewn rhai amgylchiadau, nid yw'n briodol rhannu'r holl wybodaeth a gafodd ei chynnwys yng nghofnodion y Bwrdd, er enghraifft os yw'n cynnwys data personol neu fasnachol neu os yw'n gysylltiedig â ffurfio polisi llywodraeth neu gynnal materion cyhoeddus yn effeithiol. Mewn achosion o'r fath tynnwyd yr wybodaeth allan a marciwyd yn glir ar y testun mai dyma sydd wedi digwydd.


**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-27-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.